**17th April 2019** **Llannon Community Council Council Meeting**

**Minute no. 332 – Members Present**

**Councillors**:

W James
M Jones
Sion Acciaioli
L Williams
G Jones
D Jones
E Dole
P M Williams
K Thomas
P C Edwards
D Snaith

| Chairperson Councillor W James presided over the meeting |
| --- |

**Also present:** The Clerk and Community Development Officer/Responsible Finance Officer

**Minute no. 333 – Apologies for Absence**
Apologies for absence were received from Councillors N Holman, L Davies, and R Thomas.

The Clerk informed the Council that it may be appropriate to consider a special leave of absence in the circumstance of Cllr R Thomas's letter due to his current ill health. **Resolved to** allow Cllr Thomas a special leave of absence of 3 months in principle subject to the Clerk speaking to Cllr Thomas regarding his condition.

**Minute no. 334 – Declarations of Acceptance of Councillor**
Councillor Sion Acciaioli signed the declaration of acceptance as a new Councillor.

**Minute no. 335 – Caroline Wood**
The Council received Mrs Wood who made an enquiry of the Council as to whether she could purchase a piece of land adjacent to Caeglas Play Area for use as a lawn for the property. **Resolved** to consider this request as a later item on the Council's agenda.

**Minute no. 336 – Declarations of Interest**
Councillor D Jones declared an interest as she sits on the Carmarthenshire County Council Planning Committee. Cllr E Dole declared an interest as he is the Leader of Carmarthenshire County Council.

**Ebrill 17eg 2019** **Cyngor Cymuned Llannon**

**Cyfarfod y Cyngor**

**Cofnod rhif 332 – Aelodau'n Bresennol**

**Cynghorwyr**:

W James
M Jones
Sion Acciaioli
L Williams
G Jones
D Jones
E Dole
P M Williams
K Thomas
P C Edwards
D Snaith

| Y Cadeirydd, y Cynghorydd E James, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod |
|---|

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc a'r Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC)/ Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC**).**

**Cofnod rhif 333 – Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr N Holman, L Davies, a R Thomas.

Dywedodd y Clerc wrth y Cyngor efallai ei bod yn addas, o ystyried yr amgylchiadau, i ganiatáu cyfnod eithriadol o absenoldeb i'r Cynghorydd R Thomas oherwydd ei salwch presennol. **Penderfynwyd** caniatáu cyfnod o dri mis o absenoldeb arbennig i'r Cynghorydd Thomas ar yr amod bod y Clerc yn yn cadw mewn cyswllt â'r Cyng Thomas er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch cyflwr ei iechyd.

**Cofnod rhif 334 – Datganiad Derbyn Swydd Cynghorydd**

Roedd y Cynghorydd Sion Acciaioli wedi llofnodi ei ddatganiad derbyn swydd fel Cynghorydd newydd.

**Cofnod rhif 335 – Caroline Wood**

Roedd y Cyngor wedi croesawu Mrs Wood a oedd am wneud cais i'r Cyngor i brynu darn o dir sy'n ffinio ar Ardal Chwarae Caeglas er mwyn ei ddefnyddio fel lawnt i'r eiddo. **Penderfynwyd** ystyried y cais hwn yn nes ymlaen fel eitem ar agenda'r Cyngor.

**Cofnod rhif 336 – Datgan Buddiant**

Cafwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorydd D Jones gan ei bod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, a gan y Cynghorydd E Dole gan taw fe yw Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin.

**Minute no. 337 – Signing of the Minutes – 20th March 2019 Council Meeting**
**Resolved that** the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
**Reason** – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

**Minute no. 338– Matters Arising for Information**
Minute no. 320 Tumble Hall
It was reported that good progress is being made with improvements at the hall and the new curtain track has been installed on the stage. It was agreed that a meeting of the Hall Committee will be called in the near future.

Minute no. 329 - Gravestone Design
The Chairman reported that he had consulted with the funeral director regarding the proposed design and the family has now agreed to have a traditional gravestone design.
.
**Minute no. 339 – Finance Reports**
The RFO reported that the new SAGE software had been installed.

Members of the Council received and considered the following previously circulated finance reports:

- Bank Reconciliation.
- Report on invoices for payment.
- Report on invoices already paid.

It was **resolved** to accept the reports.

**Minute no. 340 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act**
**Resolved that** the following applications be noted onto the minutes.
**Reason:** Members did not request that observations/objections be conveyed

**(a) Applications**
**Resolved that** the following applications be noted onto the minutes.

S/38669 Proposed single storey rear extension at 4 Beidr, Non, Llannon, Llanelli. Mr Thomas.

S/38564 Extension of existing storage building to convert this into a place of worship. Demolition of existing building formerly used as an Auction house. Upgrading existing car parking area and drainage for proposed use at 2 Carmarthen Road, Cross Hands. Mr Mark Thoburn.

**Cofnod rhif 337 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor – Mawrth 20fed 2018**
**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
**Rheswm –** i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

**Cofnod rhif 338– Materion yn Codi, er Gwybodaeth**
Cofnod rhif 320 - Neuadd y Tymbl
Dywedwyd bod y gwelliannau yn y neuadd yn dod yn eu blaen yn dda, a bod trac llenni newydd wedi'i osod ar y llwyfan. Cytunwyd galw cyfarfod o Bwyllgor y Neuadd yn y dyfodol agos.

Cofnod rhif 329 – Cynllun ar garreg fedd
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymgynghori gyda'r trefnwr angladdau ynghylch y cynllun arfaethedig, ac roedd y teulu yn awr wedi cytuno gosod carreg fedd draddodiadol yn ei lle.
.
**Cofnod rhif 339 – Adroddiadau Ariannol**
Dywedodd y SCC bod y feddalwedd SAGE newydd wedi'i osod.

Roedd aelodau'r Cyngor wedi derbyn ac ystyried yr adroddiadau canlynol, a ddosbarthwyd yn flaenorol:

- Cysoniad Banc
- Adroddiad ynghylch yr anfonebau sydd i'w talu
- Adroddiad ynghylch yr anfonebau a dalwyd eisoes

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiadau

**Cofnod rhif 340 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref**

**Penderfynwyd** bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.
**Rheswm**: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

**(a) Ceisiadau**
**Penderfynwyd** nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

S/38669 Estyniad arfaethedig un llawr i gefnlun 4 Beidr, Non, Llannon, Llanelli. Mr Thomas.

S/38564 Ehangu'r storfa bresennol er mwyn ei newid i fod yn addoldy. Dymchwel yr adeilad presennol, a ddefnyddiwyd yn y gorffennol fel Tŷ Ocsiwn. Uwchraddio'r ardal parcio ceir presennol a'r draeniad ar gyfer y defnydd arfaethedig yn 2 Heol Caerfyrddin, Cross Hands. Mr Mark Thoburn.

S/38706 Demolition of existing extension and construction of two storey extension to the rear of the dwelling at 55 Heol y Bryn, Upper Tumble, Llanelli. Mr Samuel.

**(b) Decision Notices Granted**
None received.

**(c) Decision Notices Refused**
None received.

**(d) Decision Notices Appealed**
None received.

**Minute no. 341 – Footpath Inspection by Volunteers**
Cllr L Williams, raised a query regarding the need for all footpaths in the community to be properly maintained, however there is limited capacity amongst the Ranger service in the County Council. It was noted that in the County Council had suggested that the community council could apply for grants to improve the paths. The Clerk reported that in previous years the County Council had agreed to provide any materials required for path maintenance should the community council be prepared to complete the labour required.

It was suggested that there would be a benefit in trying to establish a walking group in the community with advice provided back to the Clerk of any priority work which could be completed by the caretakers.

**Minute no. 342 – Adverse Possession Tumble Park**
Members of the Council considered a notification as received from the Land Registry with regard to a claim for adverse possession of land adjacent to Tumble Park. **Resolved** to object to the application on behalf of the community. Cllr P Williams agreed to represent the Council to consult with local residents to inform them of the Council decision and advise of the need for witness statements to be provided from adjacent householders to confirm that the adverse possession had not been in place for the qualifying period.

**Minute no. 343– CDO Report**
The CDO provided an overview to her previously circulated report and responded to questions as raised by Councillors.

**Minute no. 344 – Wellbeing Annual Report**
It was agreed that a further meeting of the sub group will be convened to finalise the draft report and present a final version to the next Council meeting.

S/38706 Dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu estyniad dau lawr yng nghefnlun y tŷ annedd yn 55 Heol y Bryn, Tymbl Uchaf, Llanelli. Mr Samuel.

**(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd**

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau

**(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd**

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

**(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd**

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd

**Cofnod rhif 341 – Arolwg o'r Llwybrau Troed gan Wirfoddolwyr**

Soniodd y Cynghorydd L Williams am yr angen bod yr holl lwybrau troed yn y gymuned yn cael eu cynnal a chadw'n iawn, ond nid yw Gwasanaeth Parcmon y Cyngor Sir yn gallu ymdopi â'r holl waith sy'n ei wynebu. Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi awgrymu y gallai'r Cyngor Cymuned wneud cais am arian grant i wella'r llwybrau troed. Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir, yn y blynyddoedd a aeth heibio, wedi dweud pe byddai'r cyngor cymuned yn barod i gyfrannu at y gwaith drwy darparu'r llafur, byddai'r Cyngor Sir yn darparu'r deunyddiau roedd eu hangen i gynnal a chadw'r llwybrau troed.

Awgrymwyd efallai y byddai ceisio sefydlu grŵp cerdded yn y gymuned yn syniad buddiol, a gallai'r grŵp adrodd yn ôl i'r Clerc ynghylch unrhyw waith brys sydd ei angen, er mwyn i'r gofalwyr fod yn gallu gwneud y gwaith hyn.

**Cofnod rhif 342 – Meddiannaeth Wrthgefn ym Mharc y Tymbl**

Roedd aelodau'r Cyngor wedi ystyried hysbysiad a dderbyniwyd oddiwrth y Gofrestrfa Tir ynghylch cais meddiannaeth wrthgefn o dir ger Parc y Tymbl.
**Pemnderfynwyd** gwrthwynebu'r cais ar ran y gymuned.
Cytunodd y Cynghorydd P Williams i gynrychioli'r Cyngor gan ymgynghori â phreswylwyr lleol i'w hysbysu o benderfyniad y Cyngor, ac i ofyn am ddatganiadau o dystiolaeth oddiwrth breswylwyr cyfagos er mwyn iddynt allu cadarnhau nad oedd y feddiannaeth wrthgefn wedi bodoli am y cyfnod o amser cymwys.

**Cofnod rhif 343 – Adroddiad y SDC**

Cafwyd trosolwg gan y SDC o'i hadroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol, ac atebodd gwestiynau'r Cynghorydd fel y'u codwyd.

**Cofnod rhif 344 – Adroddiad Blynyddol ynghylch Llesiant**

Cytunwyd galw cyfarfod pellach o'r is-grŵp i gwblhau'r adroddiad drafft, ac i gyflwyno'r fersiwn terfynol i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**Minute no. 345 – Operation Manager's Report**
The RFO provided an overview to her previously circulated report and responded to questions as raised by Councillors. The following matters were agreed:
Strimmer Equipment
It was reported that both caretakers had successfully completed training on the safe use and maintenance of a strimmer and that Roger Perry had completed training on the use of a chainsaw. As part of the training, it had been outlined that there is a more appropriate cutting head available on the market for cutting around headstones. **Resolved** hire a strimmer with this type of head if possible to test the suitability of the product prior to the purchase of a strimmer.

Water boiler
It was reported that the water boiler in the kitchen is not working. Members expressed concern that the availability of a water boiler is encouraging visitors to the hall to enter the kitchen for use of the boiler. **Resolved** to prevent members of the public from obtaining hot water from the kitchen through the provision of insulated jugs which can be provided to visitors as required.

Phone System
**Resolved** to defer this item to next month's meeting.

**Minute no. 346 – County Councillor Reports**
Cllr Dole gave an overview of the proposal for the OVO women's cycling tour to have the final stage located in Carmarthenshire on 15th June. The Community can be involved in a number of ways:

- 10 Volunteers who can be stewards for the event
- Bunting available to decorate the community
- Window dressing competition to promote the event
- Design a flag competition
- Links to schools with local rider and packs will be provided.

It was **agreed** that the following councillors will act as volunteers for the day:- Cllrs G Jones, D Jones, W James, L Williams, P Williams, D Snaith.

The CDO will be requested to coordinate the activities within the community and convene a meeting of the volunteers to organise the event.

Cllr E Dole reported upon the following:

- Email to the DSU to send as an enquiry to waste services for a further litter bin to be placed at Heol Tyisha.

**Cofnod rhif 345 – Adroddiad y Rheolwr Gweithrediadau**

Derbyniodd Aelodau'r Cyngor drosolwg o'i adroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol, ac ymatebodd i gwestiynau'r Cynghorwyr. Cytunwyd ar y materion canlynol:

Offer Strimio

Dywedwyd bod y ddau ofalwr wedi bod yn llwyddiannus wrth gwblhau eu hyfforddiant i defnyddio strimiwr mewn ffordd diogel, ac i'w gynnal a chadw, a bod Roger Perry wedi gorffen ei hyfforddiant i ddefnyddio llif gadwyn. Fel rhan o'r hyfforddiant, dywedwyd bod blaen torri mwy addas ar gael at bwrpas torri a gwmpas cerrig beddau.

**Penderfynwyd,** os yn bosib, i logi strimiwr gyda'r math yma o flaen torri er mwyn profi addasrwydd yr offer cyn mynd ati i brynu strimiwr o'r fath.

Boeler Dŵr
Dywedwyd nad oedd y boeler dŵr yn y gegin yn gweithio. Roedd yr Aelodau wedi mynegi eu pryder bod argaeledd y boeler dŵr yn annog ymwelwyr i'r neuadd i fynd i'r gegin i ddefnyddio'r boeler. **Penderfynwyd** atal y cyhoedd rhag mynd i'r gegin i nôl dŵr twym drwy ddarparu jwgiau inswleiddiedig i'r ymwelwyr yn ôl y galw.

System Ffôn
**Penderfynwyd** gohirio'r eitem hon tan gyfarfod mis nesaf.

**Cofnod rhif 346 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**
Cafwyd trosolwg gan y Cyng Dole o'r cynnig bod cymal diwethaf o daith feicio menywod OVO yn cael ei leoli yn Sir Gaerfyrddin ar Fehefin 15fed. Byddai modd i'r gymuned ymwneud â'r digwyddiad mewn nifer o ffyrdd:

- 10 Gwirfoddolwr i fod yn stiwardiaid yn y digwyddiad
- Baneri (buntin) ar gael i addurno'r gymuned
- Cystadleuaeth addurno'r ffenest i hyrwyddo'r digwyddiad
- Cystadleuaeth cynllunio baner
- Cysylltiadau gydag ysgolion lleol gyda beicwyr lleol, a darparu paciau.

Cytunwyd y byddai'r Cynghorwyr canlynol yn gweithredu fel stiwardiaid ar y diwrnod:- y Cynghorwyr G Jones, D Jones, W James, L Williams, P Williams, D Snaith.

Gofynnwyd i'r SDC i gydlynnu'r digwyddiadau yn y gymuned, ac i drefnu cyfarfod o'r gwirfoddolwyr i drefnu'r digwyddiad.

Cafwyd adroddiad gan y Cyng E Dole ynghylch y canlynol:

- Ebost at yr Uned Gwasanaethau Democrataidd (UGD) i ofyn iddynt anfon ymholiad at y gwasanaethau gwastraff i osod bin sbwriel arall yn Heol Tyisha.

- Has sent an enforcement enquiry to the DSU in respect of the abandoned motor bike in Tumble.
- Councillor enquiry sent to DSU regarding litter bin lids not put on correctly after they were emptied.
- Has raised an enforcement enquiry with regard to fly tipping in Penparc, Tumble.
- Has contacted Steve Pilliner to ascertain if Welsh Government are responsible for the out of date fatality sign located on the A476 and what action is being taken.
- As a result of canvassing took an enquiry from a member of public with regard to establishing a business unit/ premises to run a business.  As a result has contacted Stuart Walters and Jon Fearn to address this enquiry.

Cllr D Jones reported the following In March:

- Has chased up the Cwm Gwendraeth Nursing home signs.
- The lights not working at Cross Hands roundabout has now been addressed by Swtra.
- Has attended a homelessness and mental health forum meeting.
- Has met with residents regarding the Bridle path right of way.
- Has met with library services advised of meals on wheels and spoke with Sarah to print flyers for library staff to deliver to house bound residents in the area.
- The accident count signage previously paid for with European funding will be removed as no money is available to update the sign.
- There is a light out in Rhos y Deri.
- Spoke with residents about barriers for Roman Road as there are issues with off road bikers and cattle.
- Heol Bryngwilli street light out..
- HMO Upper Tumble spoke to the Police
- The County and has requested enforcement to check works off Heol Bryngwilli.
- Working with Cllr Deryk Cundy for homeless and poverty and met with the Wallich/Cetma and Jonathan Morgan - Housing Director.

Cllr D Jones reported on the following during April.

- Chased up the work for Moss on Carmarthen Road, Cross Hands.  The pavement needs to be skimmed and resurfaced.
- Had a site visit on Heol Parc Mawr/Clos Gelliwerdd for double yellow lines to be place on the junction for safety.
- There is a continuation of a HMO problem and bridle path.
- Report fly tipping rear of properties on High Street.
- Chased up grit bin for Pen Parc.
- Blocked drain reported at Tir Waun.
- Broken street signs at Darren Las/Cae Glas
- Litter pick request at A48
- Bin collection issues reported and resolved.

- Wedi anfon ymholiad gorfodi at yr UGD ynghylch y beic modur a adaw-wyd yn y Tymbl.
- Wedi anfon ymholiad cynghorydd at yr UGD ynghylch cloriau biniau sbwriel heb eu hail-osod yn iawn wedi i'r biniau gael eu gwagio.
- Wedi gwneud ymholiad gorfodi parthed â thipio anghyfreithlon ym Mhenparc, y Tymbl.
- Wedi cysylltu â Steve Pilliner i ofyn os taw Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr arwydd damwain angheuol ar yr A476, a beth sy'n cael ei wneud yn ei chylch, gan nad yw'r wybodaeth yn amserol bellach.
- O ganlyniad i waith canfasio, wedi derbyn ymholiad oddiwrth aelod o'r cyhoedd ynghylch sefydlu uned/ lleoliad busnes i gynnal busnes. O ganlyniad, mae wedi cysylltu â Stuart Walters a Jon Fearn i ddelio â'r ymholiad.

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng D Jones ym mis Mawrth:

- Mae wedi dilyn i fyny yr arwyddion Cartref Nyrsio Cwm Gwendraeth.
- Goleuadau ddim yn gweithio ar gylchfan Cross Hands - mae Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) wedi datrys y broblem.
- Wedi mynychu cyfarfod fforwm digartrefedd ac iechyd meddwl.
- Wedi cwrdd â thrigolion ynghylch yr Hawliau Tramwy Llwybr Ceffyl.
- Wedi cwrdd â'r gwasanaethau llyfrgell ynghylch cyngor am bryd ar glud, ac wedi trafod gyda Sarah ynghylch argraffu taflenni y gall staff y llyfrgell ddosbarthu i drigolion yn yr ardal sy'n gaeth i'w cartref.
- Bydd yr arwydd sy'n dynodi faint o ddamweiniau sydd wedi digwydd, ac a dalwyd amdani gan arian o Ewrop, yn cael ei thynnu i lawr gan nad oes arian ar gael i'w diweddaru.
- Mae un o'r goleuadau yn Rhos y Deri wedi diffodd.
- Wedi siarad gyda thrigolion ynghylch gosod rhwystrau ar Roman Road gan fod 'na broblemau gyda beicwyr oddiar y ffordd a gwartheg.
- Heol Bryngwili – golau wedi diffodd.
- Tŷ Amlfeddiannaeth (HMO) Tymbl Uchaf – wedi trafod gyda'r heddlu
- Mae'r Sir wedi gofyn am waith gorfodi i tsecio'r gwaith oddiar Heol Bryngwili.
- Yn cydweithio gyda'r Cyng Deryk Cundy ynghylch digartrefedd a thlodi, ac wedi cwrdd â'r Wallich/Cetma a Jonathan Morgan – Cyfarwyddwr Tai.

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng D Jones ym mis Ebrill:

- Wedi mynd ar ôl y gwaith ar y mwsgwl ar Heol Caerfyrddin, Cross Hands. Mae angen sgimio a gosod wyneb newydd ar y pafin.
- Wedi mynychu cyafrfod safle yn Heol Parc Mawr/Clos Gelliwerdd i osod llinellau melyn dwbl ar y cyffordd, er diogelwch.
- Tŷ Amlfeddiannaeth/ Llwybr Ceffyl yn dal i achosi problemau.
- Wedi riportio tipio anghyfreithlon y tu ôl i'r tai ar y Ffordd Fawr.
- Wedi gwneud ymholiadau am fin graean i Ben Parc.
- Wedi riportio draen a flociwyd yn Nhir Waun.
- Arwyddion stryd wedi torri yn Narren Las/Cae Glas
- Cais i gasglu sbwriel ar yr A48
- Wedi riportio a datrys problemau ynghylch casglu biniau.

- Meadows road had a site visit.
- Cross hands roundabout anti-social behaviour spoken with local Police an awaiting a site visit with SWTRA.
- Sorted issues out with 5 Clos y Waun.
- 1st Community speed watch this year on Lower and Upper Heol Bryngwili.
- Went to Cyfle with the Chairman and had an interesting talk off the older person's commissioner.
- Secured £1,000 for the food bank which is slowly continuing to grow in the number of people using the facility at the hall on Monday evenings.

**Minute no. 347 – Questions on Business of the Council**

Hanging Baskets
It was agreed that the Council purchase further baskets making a total of 175 baskets.

Annual Meeting
Agreed that the meeting will be convened during the 3rd Wednesday in May.

**Minute no. 348 – Correspondence**
The Council received the following correspondence:

| | |
|---|---|
| One Voice Wales | Payments to Members of Community & Town Councils |
| Tumble Rugby Club | Notice of an application for registration of a person in adverse possession. B149 |
| Phase Connections | Details of Defib positions |
| Carmarthenshire County Council | Damaged paviors |
| Caroline Wood | Waste land |
| Cefneithin Rugby Club | Utilising playing fields in Cross Hands |

**Minute no. 349 – Land adjacent to 1 Tirwaun Cross Hands**
Members of the Council considered a request as received from Caroline Wood for the purchase of a parcel of land adjacent to their property.
It was **agreed** in principle to this request subject to the consent of the County Council and the purchaser covering any of the Council's costs.

**Minute no. 350 – Cross Hands Playing Fields**
Members of the Council considered requests for the use of the playing fields at Cross Hands from 2 local teams. Members of the Council agreed in principle to the clubs having use of the facility and requested that the Clerk open negotiations with both the teams and also make enquiries with Tumble teams to establish any interest they may have in the facility.

**Minute no. 351 – Standing Orders**
It was agreed to suspend standing orders in order to enable the continuation of business beyond 9pm.

- Cynhaliwyd ymweliad safle yn Heol Meadows.
- Cylchfan Cross Hands – ymddygiad gwrth-gymdeithasol – wedi trafod gyda'r heddlu lleol ac yn aros am ymweliad safle gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA).
- Wedi datrys problemau yn 5 Clos y Waun
- Gwylio cyflymder cymunedol 1[af] eleni yn Heol Bryngwili Isaf ac Uchaf.
- Wedi mynychu *Cyfle* gyda'r Cadeirydd ac wedi cael sgwrs ddiddorol gyda'r comisiynydd pobl hŷn.
- Wedi caffael £1,000 i'r banc bwyd, gan fod y nifer o bobl sy'n defnyddio'r adnodd hwn yn y neuadd ar nosweithiau Llun yn dal i dyfu'n araf.

**Cofnod rhif 347 – Cwestiynau ynghylch Busnes y Cyngor**

Basgedi Crog

Cytunwyd bod y Cyngor yn prynu rhagor o fasgedi, gan ddod â'r cyfanswm i 175 o fasgedi.

Cyfarfod Blynyddol

Cynhelir y cyfarfod ar y trydydd dydd Mercher ym mis Mai.

**Cofnod rhif 348 – Gohebiaeth**

Roedd y Cyngor wedi derbyn yr ohebiaeth ganlynol:

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru | Taliadau i Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned |
| Clwb Rygbi y Tymbl | Hysbyseb o gais i gofrestru person mewn meddiannaeth wrthgefn. B149 |
| Phase Connections | Manylion lleoliadau'r diffibrilwyr |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Palmantydd difrodedig |
| Caroline Wood | Tir gwastraff |
| Clwb Rygbi Cefneithin | Defnydd o'r caeau chwarae yn Cross Hands |

**Cofnod rhif 349 – Tir ger 1 Tirwaun Cross Hands**

Roedd aelodau'r Cyngor wedi ystyried cais a dderbyniwyd oddiwrth Caroline Wood i brynu darn o dir ger ei heiddo.

**Cytunwyd** i'r cais hwn mewn egwyddor, ar yr amod bod y Cyngor Sir yn rhoi ei ganiatâd a bod y prynwr yn talu unrhyw gostau ar ran y Cyngor.

**Cofnod rhif 350 – Caeau Chwarae Cross Hands**

Roedd aelodau'r Cyngor wedi ystyried ceisiadau gan ddau dîm lleol i ddefnyddio'r caeau chwarae yn Cross Hands. Roedd aelodau'r Cyngor wedi cytuno, mewn egwyddor, bod y clybiau yn cael defnyddio'r cyfleuster, a gofynnwyd i'r Clerc i drafod gyda'r ddau dîm, ac hefyd i wneud ymholiadau gyda thimau'r Tymbl i weld pa ddiddordeb sydd ganddynt yn yr adnodd hwn.

**Cofnod rhif 351 – Rheolau Sefydlog**

**Penderfynwyd** atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh.

**<u>Minute no. 352 – Financial Assistance</u>**
It was **<u>resolved</u>** to offer the following organisations a donation in accordance with its powers under Section 137 of the LGA 1972, which in the opinion of the Council is in the interests of the area or its inhabitants and will benefit them in a manner commensurate with the expenditure:

Eisteddfod yr Urdd - Agreed in principle to provide the Urdd with a donation, however the amount of donation will be determined when the target for donations for the area is known.

***Cllr P Williams and L Williams declared an interest and left the room whilst items for financial assistance were discussed.***

**<u>Minute no. 353 – Loan Agreement</u>**
The Clerk presented Council with a copy of a proposed Loan Agreement with regard to a member of the staff. **<u>Resolved</u>** to approve the entering of the agreement.

**<u>Minute no. 354 – Councillor Reports</u>**

- Cllr L Williams reported that a new CCTV camera sign is needed in the Tumble memorial gardens.
- Cllr G Jones enquired what has happened to the Cwm Gwendraeth sign. Cllr E Dole **<u>agreed</u>** follow this up with the County Council.
- Cllr K Thomas reported that further repairs are required to the path at the entrance to the cemetery.
- Cllr D Snaith has received several complaints regarding the speed bump at the Red Lion at Llannon. **<u>Resolved</u>** that the Clerk write to the Highways department asking for the height of bumps to be reduced.

**Meeting ended at 9.30pm**

**Signed ........................................................ Date .................................**
**Chairman**

**<u>Cofnod rhif 352 – Cymorth Ariannol</u>**

**<u>Penderfynwyd</u>** cynnig rhodd i'r sefydliadau canlynol yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a fydd, ym marn y Cyngor, o les i'r ardal a'i thrigolion mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

Eisteddfod yr Urdd – Cytunwyd, mewn egwyddor, i wneud rhodd ariannol i'r Urdd, ond bydd yr union swm yn cael ei benderfynu pan fod manylion o'r targed am roddion yn yr ardal yn hysbys.

***Roedd y Cynghorwyr P Williams ac L Williams wedi datgan buddiant, ac wedi gadael yr ystafell tra bod yr eitemau cymorth ariannol yn cael eu trafod.***

**<u>Cofnod rhif 353 – Cytundeb Benthyciad</u>**
Cyflwynodd y Clerc gopi o'r Cytundeb Benthyciad arfaethedig, ynghylch gwneud benthyciad ariannol i aelod o staff, i'r Cyngor. **<u>Penderfynwyd</u>** cymeradwyo'r cytundeb, a'i selio.

**<u>Cofnod rhif 354 – Adroddiadau'r Cynghorwyr</u>**

- Dywedodd y Cyng L Williams bod angen arwydd Camera Cylch Cyfyng newydd yng ngerddi coffa'r Tymbl.
- Gofynnodd y Cyng G Jones beth oedd yn digwydd i'r arwydd Cwm Gwendraeth. **<u>Cytunodd</u>** y Cyng E Dole i ddilyn hyn i fyny gyda'r Cyngor Sir.
- Dywedodd y Cyng K Thomas bod angen atgyweiriadau pellach i'r llwybr wrth y mynediad i'r fynwent.
- Roedd y Cyng D Snaith wedi derbyn sawl cwyn ynghylch y twmpathau cyflymder ger tafarn y Llew Coch yn Llannon.
  **<u>Penderfynwyd</u>** bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd i ofyn bod y twmpathau yn cael eu gwneud yn is.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh**

**Llofnod ..........................................** **Dyddiad ..................................**
**Cadeirydd**